WGOS

# CYLCHLYTHYR

Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru
Wales General Ophthalmic Services

*7fed Argraffiad, Tachwedd 2023*

## Croeso



Bydd y **Cylchlythyrau WGOS** yn eich cefnogi i lywio drwy ddiwygio contract optometreg Llywodraeth Cymru. Bydd pob cylchlythyr yn rhoi crynodeb o bwnc penodol gyda dolenni i adnoddau a chymorth perthnasol. Byddant yn rhoi awgrymiadau a chyngor i'ch cefnogi gyda'r gwasanaethau optometreg newydd … ***rydym yma i'ch cefnogi chi.***

Bydd rhaglen ddiwygio WGOS yn gweld yr ystod o wasanaethau gofal llygaid a ariennir gan y GIG a ddarperir gan optometryddion, ymarferwyr meddygol offthalmig (OMP) ac optegwyr cyflenwi yng Nghymru yn cynyddu, a bydd pob aelod o dîm y practis yn cydweithio i weithio ar frig eu trwydded glinigol berthnasol.

## Cylchlythyr #7:
## Po fwyaf y mae pethau'n newid, y mwyaf y byddant yn aros yr un peth

***Diolch i chi gyd am eich ymrwymiad, amynedd a brwdfrydedd wrth drosglwyddo i WGOS. Ni fyddai wedi bod yn bosibl heb eich cefnogaeth a'ch parodrwydd i gymryd cyfrifoldeb am newidiadau ar lefel ymarfer. Mae datblygiadau pellach ar y gweill, gan gynnwys WGOS 4 a fydd yn cyflwyno glawcoma seiliedig ar optometreg a gwasanaethau retina meddygol yn 2024. Yn y cyfamser, hoffem eich atgoffa o rai pethau allweddol nad ydynt wedi newid ers cyflwyno WGOS:***

1. Yr angen i'r meddyg teulu wybod canlyniad cyfnodau WGOS 2 (apwyntiadau Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (EHEW) gynt) naill ai trwy lythyr, e.e. Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru (WECS) (2), neu gopi o atgyfeiriad, e.e. WECS (3). Mae'n bosibl y bydd un cyfathrebiad yn ddigonol ar gyfer cyfnodau gofal cysylltiedig.

2. Yr hyblygrwydd i optometryddion ac Ymarferwyr Meddygol Offthalmig (OMPs) wneud apwyntiadau i ddarparu ar gyfer ymrwymiadau eu cleifion a allai arwain at gynnal archwiliadau WGOS 1 ychydig yn gynharach na'r cyfnodau yn y llawlyfr. Fel o'r blaen, ni fydd y Byrddau Iechyd yn herio hawliadau heb eu codio ar gyfer WGOS 1 a wneir o fewn mis i'r cyfnodau hyn.

3. Y canllawiau clinigol a llwybrau ar gyfer cataractau, gorbwysedd ociwlar (OHT)/ glawcoma (gan gynnwys rhyddhau o'r ysbyty), dirywiad maciwlaidd cysylltiedig ag oedran (AMD) a retina rhydd a thoriad yn y retina (adrannau 10-14 o hen lawlyfr EHEW neu lwybrau Bwrdd Iechyd cyfatebol).

# Cwestiwn allweddol

? Ydw i'n optometrydd, yn optegydd cyflenwi neu'n aelod o dîm y practis?

✔ Os mai **'ydw'** yw eich ateb, parhewch i:

Anfon llythyrau canlyniad meddygon teulu/copïau o atgyfeiriadau ar gyfer WGOS 2.

Bod yn hyblyg gydag apwyntiadau cleifion o fewn mis i'r cyfnod cyn eu harchwiliad WGOS 1 nesaf.

Chadw at y llwybrau ar gyfer cataractau, OHT/glawcoma, AMD a retina rhydd/toriad yn y retina.

✘ Os mai **'nac ydw'** yw eich ateb i'r cwestiwn uchod

Ymlaciwch ac arhoswch am y cylchlythyr nesaf.

# Crynodeb

## Beth?

Dim newid i:

- Lythyrau Meddygon Teulu/copïau o atgyfeiriadau ar gyfer WGOS 2.
- Hyblygrwydd ar gyfer apwyntiadau WGOS o fewn mis i'r adeg cyn yr archwiliad nesaf.
- Cataractau, OHT/glawcoma, AMD a llwybrau ar gyfer retina rhydd/toriad yn y retina.

## Pryd?

Yn awr ac yn parhau tan y ceir datblygiadau gwasanaeth yn y dyfodol, yn enwedig WGOS 4 ar gyfer OHT/glawcoma a retina meddygol.

## Sut?

Cliciwch ar y dolenni i gael copïau o dempledi WECS (2) a WECS (3) a/neu Ganllawiau Clinigol 2022 (detholiad o lawlyfr EHEW).

# Cadwch mewn cysylltiad!

Optometreg Cymru (OW) yw'r sefydliad ymbarél proffesiynol ar gyfer y proffesiynau iechyd llygaid gofal sylfaenol yng Nghymru. Gallant gynnig cymorth a chyngor i chi.

E-bost: Debbie.O'Sullivan@Optometrywales.com

I gael diweddariadau yn y dyfodol trwy e-bost, cofrestrwch eich cyfeiriad e-bost yn https://forms.office.com/e/4Kksq7sFpu neu tynnwch lun o'r cod QR isod gyda'ch ffôn clyfar.

Gellir dod o hyd i ddiweddariadau blaenorol yn:
https://www.gig.cymru/sa/gofal-llygaid-cymru/wgos/cylchlythyrau-wgos/